# PRENTISIAETHAU.
# DEWIS DOETH.
# CYMELLIADAU I RECRIWTIO PRENTISIAID

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Bydd y cymelliadau ar gyfer Prentisiaethau, a fydd yn para hyd at **28 Chwefror 2022** (yn amodol ar y gyllideb sydd ar gael) yn helpu busnesau i recriwtio prentisiaid, gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithlu sy'n gallu diwallu anghenion busnes sy'n newid.

## 1. CYMELLDALIAD AR GYFER CYFLOGI PRENTIS IFANC 16-24 OED

- £4,000 am bob prentis newydd iau na 25 oed sy'n cael ei recriwtio, os bydd contract y gyflogaeth am o leiaf 30 awr yr wythnos
- £2,000 am bob prentis newydd iau na 25 oed sy'n cael ei recriwtio, os bydd contract y gyflogaeth am lai na 30 awr yr wythnos

## 2. CYMELLDALIAD AR GYFER CYFLOGI PRENTIS 25 OED AC YN HŶN

- £2,000 am bob prentis newydd 25 oed ac yn hŷn sy'n cael ei recriwtio, os bydd contract y gyflogaeth am o leiaf 30 awr yr wythnos
- £1,000 am bob prentis newydd 25 oed ac yn hŷn sy'n cael ei recriwtio, os bydd contract y gyflogaeth am lai na 30 awr yr wythnos

## 3. CYMHELLIAD AR GYFER CYFLOGI POBL ANABL

- £1,500 am bob prentis newydd sy'n cael ei recriwtio.
- Mae'r taliad ar gael i bob prentis sy'n anabl ni waeth beth fo'i oedran
- Gellir hawlio taliadau yn ogystal â'r cymhelliad ar gyfer pobl 16-24 oed a 25 oed a throsodd.

Dylid nodi y bydd y cymelliadau a nodir uchod yn berthnasol p'un a gafodd y recriwtiad newydd ei ddiswyddo o'i brentisiaeth flaenorol neu beidio. Cyfyngir y taliadau i **ddeg dysgwr fesul busnes**. Mae'r cymelliadau yn berthnasol i brentisiaethau a gyflwynir ar **Lefelau 2-5 yn unig**, ac **nid ydynt yn berthnasol i radd-brentisiaethau**.

**AM RAGOR O WYBODAETH SIARADWCH Â'CH DARPARWR HYFFORDDIANT, NEU CLICIWCH YMA**

Prentisiaethau
Apprenticeships

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund